

Croeso swyddogol i'r Parchedig Anna Jane Evans yn nhre'r Cofis

Roedd nos Wener, 26 Tachwedd, yn noson arbennig o ddathlu yng nghapel Seilo, Caernarfon, pan ddaeth cynulleidfa niferus ynghyd – yn y capel ei hun, dros Zoom, ac ar y ffôn – i ddangos cefnogaeth i'r Parchedig Anna Jane Evans wrth iddi gael ei sefydlu'n Weinidog ar Eglwys Seilo, Caernarfon; Capel y Waun, Waunfawr; ac Eglwys y Berth, Penmaenmawr. Er iddi fod yn hynod weithgar yn ein plith ers dros flwyddyn a hanner, daeth cyfle o'r diwedd i gynnal gwasanaeth i'w sefydlu – yn 'swyddogol' bellach – yn Weinidog ar y tair eglwys sy'n ffurfio'r ofalaeth erbyn hyn.

Cyn i gyfyngiadau Covid-19 ddod i rym ym Mawrth 2020, roedd Pwyllgor Bugeiliol Gofalaeth Seilo a Chapel y Waun eisoes wedi estyn galwad unfrydol i Anna Jane ddod atom yn Weinidog. Ond, oherwydd nad oedd yn bosibl i ni gyfarfod 'yn y cawd' i gynnal pleidlais i gadarnhau'r alwad, bu'n rhaid aros tan fis Chwefror eleni (2021) i hynny ddigwydd. O ganlyniad, bu Anna Jane yn gweithio fel Cynorthwydd Gweinidogaethol yn yr ofalaeth yn y cyfamser. Testun balchder a phleser digymysg, felly, oedd gallu cynnal y Gwasanaeth Sefydlu o'r diwedd – a hynny dros ddeunaw mis wedi i ni estyn yr alwad iddi!

Llywyddwyd y cyfarfod gan Nerys Evans, Rhostryfan (cyn-Lywydd Henaduriaeth Arfon) a chymerwyd rhan gan Susan Williams (Cynllun EFE), Llinos Morris (Eglwys Noddfa), Llinos Roberts (Cymorth Cristnogol), Pat Parry (Capel y Waun), W. Gwyn Lewis (Eglwys Seilo), a'r Parchedigion Elwyn Richards, Gwenda Richards a Pryderi Llwyd Jones. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alun Rhys Williams.

Yn ystod y gwasanaeth, cyfeiriwyd fwy nag unwaith at ofal cydwybodol Anna Jane dros bawb o'r aelodau – yn arbennig y diymgeledd, yr unig a'r bregus yn ein plith – a gŵyr pawb am ei hymroddiad diwyro i estyn llaw at yr anghenus a'r difreintiedig mewn cymdeithas. Mae Caernarfon a'r cylch wedi hen brofi o'i

Christnogaeth ymarferol er pan oedd yn gweithio yn Eglwys Noddfa ar Stad Ysgubor Goch ac yna, yn ddiweddarach, bu'n ymgyrchu'n ddiflino yn enw Cymorth Cristnogol.

Ers iddi gychwyn ar ei gwaith yn ein plith – trwy ei chyswllt bugeiliol personol â'r aelodau a thrwy arwain gwasanaethau a chyfarfodydd yn y capeli, dros Zoom ac ar y ffôn – mae wedi llwyddo i gynnal, arwain, a chyfoethogi bywyd yr eglwysi gyda'r ymroddiad a'r ysbrydoledde sydd mor nodweddiadol ohoni. Diolchwyd yn ddiffuant iddi am y cyfan y mae hi eisoes wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod anodd rydym wedi bod drwyddo yn sgil y pandemig, a dymunwyd pob bendith ar ei gweinidogaeth a'i chenhadaeth yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.



Wrth gynnal y gwasanaeth sefydlu yng nghapel Seilo, Caernarfon, cyd-ddigwyddiad dymunol oedd bod diweddar daid Anna Jane, y Parchedig Stephen Owen Tudor, wedi bod yn weinidog ar Eglwys Moreia yn y dref o 1935 i 1962, a dyfynnwyd o englynion coffa'r Parchedig John Roberts iddo:

Dan ei law roedd doniau lu,
A'i dalent oedd ei deulu.

Yn y cyd-destun hwn, braf iawn oedd gweld nifer o aelodau'r teulu yn bresennol yn y gwasanaeth i ddangos eu cefnogaeth iddi.

Wrth ymateb i'r croeso a'r dymuniadau da – a'r siars amserol a gyflwynwyd gan y Parchedig Pryderi Llwyd Jones – cydnabu Anna Jane fod llawer o waith i'w wneud yn enw Crist er mwyn gwella amgylchiadau pobl yn ein cymdeithas heddiw, ac ar derfyn y gwasanaeth estynnodd wahoddiad ac anogaeth i bawb ohonom 'fynd allan i weithio' efo hi yn y dref a'r cylch. Dyna, yn sicr, ein braint a'n cyfrifoldeb ni, bob un.

*W. Gwyn Lewis
Ysgrifennydd Eglwys Seilo, Caernarfon*

Beiblau a llyfrau Nadolig i blant


Dros y misoedd diwethaf cyhoeddwyd nifer o Feiblau lliw newydd i blant, a hynny yn barod ar gyfer y farchnad Nadolig. Mae'r llyfrau hyn i gyd bellach ar gael yn eich siop lyfrau Cymraeg neu eich siop lyfrau Cristnogol leol, neu i'w harchebu'n uniongyrchol drwy'r post gan Gyngor yr Ysgolion Sul.

Gobeithiwn hefyd y bydd darllenwyr *Cenn@d* yn ystyried cyflwyno llyfrau'n anrhegion Nadolig i blant, boed yn wyrion ac wyresau neu blant cymdogion a ffrindiau. Gyda llai a llai o blant bellach yn mynychu ysgolion Sul yn rheolaidd, dyma un ffordd o gyrraedd cenhedlaeth newydd o blant. Dyma gyfle hefyd i gyflwyno anrheg Nadolig arbennig ar ran y capel / yr ysgol Sul i'r plant o dan eich gofal.

Beibl Newydd y Teulu Cyhoeddwyd Beibl lliw newydd yn ystod 2021 sydd wedi'i anelu at y teulu cyfan, sef *Beibl Newydd y Teulu*. Paratowyd hwn gan Bob Hartman, sy'n adnabyddus fel awdur storïau'r cynllun Agor y Llyfr, a'i addasu i'r Gymraeg gan Siân Roberts. Wrth ddarllen y 40 stori sydd yn y casgliad, cewch gyfle i ddysgu mwy am y cymeriadau lliwgar ac ymateb iddynt gyda'r llyfr ymarferol a difyr hwn i deuluoedd. Ychwanegwyd elfennau rhyngweithiol at y storïau bytholwyrdd er mwyn annog y teulu cyfan i ystyried, trafod a'u cysylltu â'u bywydau nhw eu hunain. Cyflwynir cymeriadau a digwyddiadau, gan ddangos sut mae Duw'n gweithio trwyddyn nhw.


Ceir cyfle hefyd i ystyried sut fydddech chi'n ymateb yn yr un sefyllfa, a beth mae Duw'n dymuno i ni ei wneud heddiw. Mae yma anogaeth i deuluoedd draffod oblygiadau ffydd a sut i wneud Duw yn berthnasol yn ein bywydau wrth fyw o ddydd i ddydd, gan ystyried sut i gynnwys Duw ym mhenderfyniadau'r teulu.

Ceir hefyd syniadau gwerthfawr am bynciau trafod a cheisiadau gweddi y gall y teulu cyfan eu rhannu. Disgrifiwyd y gyfrol fel 'Gwers ysgol Sul mewn bocs' gan fod y stori, y wers a'r anogaeth i gyd yno mewn un gyfrol. A dywedodd un arweinydd ei bod yn 'ffordd hwylus a hawdd o ddilyn cynllun Agor y Llyfr yn y cartref'. Heb os, dyma adnodd gwerthfawr i helpu'r teulu cyfan i draffod rhai o brif storïau'r Beibl, gyda digon o gynnwys yma am flwyddyn gyfan o sesiynau wythnosol. Pris y gyfrol hardd hon yw £13.99.




Stori Fwya'r Byd Cyfrol newydd ar gyfer plant 7-11 oed, eto o waith y storiwr poblogaidd Bob Hartman, ac wedi ei chyfieithu'n feistrolgar gan Meinir Pierce Jones. Mae'r gyfrol wedi ei hysgrifennu yn arddull cyfoes llyfrau Twm Clwyd neu *Dyddiadur Dripsyn*, lle ceir cyfuniad o destun, graffiti, dwdls a lluniau wedi'u plethu â'i gilydd i greu cyfanwaith cyffrous a difyr.

Meddai'r awdur: 'Croeso i'r llyfr GORAU a mwyaf cyffrous y byddwch chi erioed wedi'i ddarllen. Mae'n dechrau cyn y dechreuodd y byd (amser maith yn ôl!) ac mae'n hanes ANHYGOEL sy'n un stori FAWR Feiblaidd, wedi'i chysylltu â saethau a chwestiynau a dwdls difyr. Mae'n llawn criwiau o angylion, gwyrthiau gwefreiddiol, breuddwydion boncyrs ac addewidion amhosibl'. Efallai eich bod wedi clywed rhai o'r straeon hyn o'r blaen, ond ddim cweit wedi eu hadrodd fel yma! Pris y gyfrol yw £8.99.



Y Comic Beiblaidd Anferth Cyfrol newydd arall sy'n mynd â ni ar daith drwy brif hanesion y Beibl, mewn arddull stribed comig poblogaidd.

Meddai'r awdur: 'Croeso i'r comic Beiblaidd anferth! Cofiwch mai yn y Beibl ceir y gwir NEWYDDION DA ac mae'r casgliad hwn o storïau




o'r Hen Destament a'r Newydd yn dod â'r cyfan yn fyw. Gan ei fod ar ffurf comig, bydd yn siŵr o ddal diddordeb ac mae'r lluniau'n hoelio sylw ac yn llawn hiwmor. Daw hyn â'r storïau a chymeriadau'r Beibl yn fyw mewn ffordd a fydd yn aros yn y cof am amser hir.'

Mae'r tîm creadigol yn cynnwys goreuon y byd ym maes comics, gan gynnwys: Mychailo Kazybrid, a fu'n gweithio ar sgriptiau a delweddau cyfres Wallace and Gromit; Jeff Anderson, a fu'n gweithio ar gyfres gomics a theledu'r *Transformers*, y *Beibl Graffeg* a *Minecraft*; Bambos Georgiou o gwmni comics Marvel a D C Thompson Comics (cynhyrchwyr comics fel *Beano* a *Dandy*) a Jesus Barony, sy'n brofiadol ym myd dylunio nofelau graffig i Lego. Mae'r addasiad Cymraeg gan Alun Jones, a phris y gyfrol yw £8.99.

Y Llais Cyfrol newydd ar gyfer rhai yn eu harddegau gan Huw John Hughes. Dyma gyfrol wreiddiol Gymraeg yn olrhain hanes bywyd Iesu, a hynny yn arddull papur newydd tabloid poblogaidd (fel y *Sun* neu'r *Mirror*).

Meddai'r golygydd o'r ddesg newyddion: 'Dros y tair blynedd diwethaf bu gohebwy'r *Llais* yn dilyn Iesu o Nasareth yn ei gynefin yng Ngallilea ac yna ar ei daith olaf i Jerwsalem yn nhalaith Jwdea. Maen nhw wedi bod yn llygad-dystion i wahanol ddigwyddiadau yn ystod ei fywyd ac wedi cael cyfle i holi ei ddisgyblion a'i ddilynwyr yn ogystal â rhai o'i wrthwynebwyr. Cawsant gyfle i bwysa a mesur beth oedd y dylanwadau gwleidyddol a chrefyddol arno a'r modd y bu'r rheiny'n rymdylanwadol ar ei fywyd, yn enwedig yn ystod ei ddyddiau olaf yn Jerwsalem. Mae'r golygydd wedi cywain y digwyddiadau amlycaf yn ei weinidogaeth i un gyfrol. Heb os, mae swm a sylwedd gweinidogaeth Iesu yn crynhoi neges a chrwsâd y *Llais* sef, y papur sy'n troi'r byd a'i ben i waered. Darllenwch a phrofwch drosoch eich hun ond mae 'na rybudd – efallai y bydd ambell ddadansoddiad a dehongliad yn gwbl wahanol i'r hyn yr oeddech yn arfer ei gofio a'i drysori.' Mae'r gyfrol ar gael am £7.99.



I eglwysi neu ysgolion Sul sydd am gyflwyno copïau yn anrhegion i blant, mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn cynnig gostyngiadau a thelerau arbennig; gyrrwch e-bost at aled@ysgolsul.com i dderbyn mwy o wybodaeth neu ewch i wefan www.ysgolsul.com

O'r byd a'r betws

Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio

Un o ddarlleniadau cyson oedfaon Naw Llith a Charol yw Eseaia 9:2-7, ac mae'r awdur yn defnyddio'r dechneg gyson o gymharu'r golau â'r tywyllwch i bwysleisio bod gobaithe mewn adfyd. Pwy fyddai'n dewis cerdded ym mherygl y tywyllwch? Byddai'r glowyr yn falch o'r golau ar eu helmedau, ac mae pawb sy'n cerdded yn nhywyllwch nos yn siŵr o drysori fflachlamp. Mae'r enghreifftiau yn amlwg niferus.

Profiad gwahanol yw profiad rhywun sy'n sefyll yn y tywyllwch ac sy'n gweld golau oddi mewn i'r adeilad sy'n gaeedig iddynt. Bydd ffoaduriaid ar ffiniau gwledydd Ewrop yn dyheu am groeso a chynhaliath y gwledydd hyn yn llawn rhwystredigaeth. Rhaid bod cael eu gorfodi i aros 'yn y

tywyllwch' yn brofiad erchyll, a hwythau heb gysgod na chynhaliath, gan ofni marw yn yr oerfel cynyddol.

Pan fyddwn yn canu'r carolau sy'n rhoi sylw i ddiffyg 'lle yn y llety, heb aelwyd na gwely' gallwn feddwl am y ffoaduriaid sy'n gorfod dianc o'u gwledydd cynhenid, beth bynnag eu rhesymau, a mentro mewn cychod bregus dros y dŵr neu gerdded tiroedd peryglus heb unrhyw sicrwydd o gyrraedd unman. Onid yw'n syrffedus clywed gwleidyddion yn hawlio nad oes 'lle yn y llety' ac yn defnyddio trais i wthio'r ffoaduriaid atoerfelbyd, a methusylweddoli nad dewis y trueiniaid oedd gadael unrhyw famlwd, ond bod erledigaeth gartref wedi creu'r ing arswydus a rhylllyd.

Ni wyddom beth yw wynebu heriau tebyg i werin ddi-rym Affganistan, a'r sefyllfaoedd y maent ynddynt. Dyna wirionedd eu profiadau a realiti 2021 iddynt. Er mor amlwg bwysig yw cynllun herio Covid-19 ymhobman, mae herio cynhesu byd-eang yn frwydr fwy o lawer. Serch hynny, pa ddisgwyl i'r rhai sy'n profi tywyllwch tloidi amhosibl y ffoaduriaid i amgyffred y ddau gyntaf, os nad oes ganddynt unrhyw beth i'w fwyta nac unman i gysgodi. Sawl gradd o dywyllwch sy'n herio pobloedd daear?

Ddiwedd Tachwedd, rydym wedi dod yn fwyfwy cyfarwydd ag arfer siopau o gynnig bargeinion y Gwener Du – Black Friday. Dyna arfer hurt arall a groesodd yr Iwerydd er mwyn denu gwerthiant yn y siopau. Nid yw o unrhyw fudd i'r siopau, a bydd y sawl sy'n tybied bod therapi marchnata o'r math hwn – gan brynu eitemau nad oes gwir eu hangen arnynt – yn arbed arian yn cyfeiliorni. Pwy sy'n gosod cyweirnod y gorffwylledd hwn? Prin bod prynu teledu neu rewgell fwy yn gwella ansawdd bywyd go iawn, mwy na dilyn y ffasiwn o ddyheu am geir drudfawr neu fod unrhyw eitem debyg yn dwyn golau i fyd tywyll.

Onid hanfod neges y Nadolig yw fod Duw yn cynnig golau gwerthfawr i fyd unig ac ofnus hunanoldeb a thrais. Ceir golau ym mherson y baban yn y preseb, a ddaeth â theyrnas na ddiflanna ac na ellir ei threchgu. Yn llewyrch ei air a'i fywyd, cyhoeddir bod cymod yn bosibl rhwng gelynyon, a rhennir meddylfryd trugaredd a maddeuant. Wrth rannu golau ei gannwyll ef, heriwn y tywyllwch a gweithiwn dros fyd sy'n wirioneddol oleuedig.

Denzil John



Llun: <https://sandorcsudai.com/> trwy ganiatâd CC4.0

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 12 Rhagfyr, am 7.30yh
(ailddarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)

Adfent #3 – Bydd Nia yn cwrdd â bachgen o Gwm Tawe sy'n ysbrydoliaeth i'w gymuned, a bydd Ryland yn treulio amser gyda gwirfoddolwyr yr elusen Superkids, elusen sy'n dod â heulwen i fywydau cannoedd o blant difreintiedig dros y Nadolig. Cawn fwynhau perfformiad bendigedig gan Glain Rhys o glasar Meic Stevens, 'Noson Oer Nadolig'.


Dyma gopi o gylchlythyr mis Rhagfyr: <https://spark.adobe.com/page/QpwoYUG0RAPqY/>

Cystadleuaeth ysgrifennu emyn ar gyfer nodi pen-blwydd Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn 60 oed

Dyma wahoddiad i chi i ysgrifennu emyn newydd ar gyfer nodi pen-blwydd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed. Gofynnir i'r emyn fod yn gynnig Cymraeg gwreiddiol, a chofiwch ystyried beth fyddai hyd addas i'w ganu mewn capel neu eglwys.

Rhoddir gwobr o £200 i'r emyn buddugol. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 14 Ionawr 2022. Anfonwch eich ceisiadau at emynigymru@rondomedia.co.uk.

Bydd cystadleuaeth newydd yn y gwanwyn i gyfansoddi emyn-dôn i'r geiriau buddugol. Mwy o wybodaeth: www.s4c.cymru/dechraucanu.



BBC radio cymru

Sul, 12 Rhagfyr – Caniadaeth y Cysegr, 7.30yb a 4.30yp
Bydd Modlen Lynch yn parhau i drafod cyfraniad merched i'n hemynyddiaeth gyda phwyslais ar garolau.

Sul, 12 Rhagfyr – Oedfa Radio Cymru, 12.00yp
Ar drydydd Sul yr Adfent byddwn yn parhau gyda'r gyfres o oedfaon o'r gwledydd Celtaidd. Oedfa dan arweiniad John Owain Jones, sydd yn weinidog ar Ynys Bute yn yr Alban.

Galw ar gwmni Apple i fynd i'r afael â gwahaniaethu crefyddol wrth i Tsieina barhau i geisio tewi Gair Duw

Mae'r elusen Open Doors, sy'n gweithio ym maes rhyddid crefyddol, yn galw ar gwmni Apple i godi ei lais yn erbyn 'gwahaniaethu crefyddol amlwg' ar ôl i ap o'r Beibl gael ei ddileu o'i Apple Store ar y we.

Mae ap Olive Tree ar gyfer ffonau symudol yn caniatáu i ddefnyddwyr ddarllen gair Duw. Ond cafodd ei wahardd ar ôl i gwmni Apple fethu sicrhau trwydded i'w ddsbarthu yn Tsieina yn ystod y broses adolygu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, mae nifer o apiau Cristnogol wedi'u gwahardd yn Tsieina fel rhan o ymateb llym y wlad i Gristnogaeth. Dywedodd Dr David Landrum, Cyfarwyddwr Eiriolaeth Open Doors, y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: 'Mae hyn yn gosod cynsail peryglus ar gyfer rhyddid crefyddol. Yn hanesyddol, mynediad i'r Beibl, yn fwy nag unrhyw ddylanwad arall, sydd wedi galluogi rhyddid crefyddol; mae hyn yn ei dro yn sylfaen i gynifer o hawliau dynol eraill.

'Dyma'n union pam mae Plaid Gomiwnyddol Tsieina (CCP) mor wrthwynebus i bobl Tsieina gael mynediad ato. Er bod llawer o dechnoleg Apple yn cael ei chynhyrchu yn Tsieina, gobeithio y bydd y cwmni'n codi ei lais yn erbyn y gwahaniaethu crefyddol amlwg hwn.'

Mae Open Doors yn honni bod y gwaharddiad hwn yn digwydd wrth i awdurdodau Tsieina fynd yn fwyfwy gelyniaethus tuag at Gristnogion a Mwslimaidd.



Siop Apple yn Chengdu, Tsieina

Llun: Unsplash

Dywedodd ffynhonnell na ellir ei henwi am resymau diogelwch: 'Mae crefydd yn cael ei hystyried yn rhywbeth allai arwain at ansefydlogi ac yn sicr nid yw'n cyd-fynd ag ideoleg sosialaidd Tsieina y dylai'r ddinasyddion "gael eu cyfarwyddo" yn hytrach na chael caniatâd i ymarfer rhyddid barn neu gred. Mae fel petai'r [Arlywydd] Xi Jinping yn credu bod yr amser wedi dod i ffrwyno a dwyn crefyddau i drefn, yn enwedig Islâm a Christnogaeth.'

Gwaharddwyd gwerthu Beiblau ar-lein yn Tsieina yn 2018. Tsieina yw rhif 17 ar Restr Gwyllo'r Byd gan Open Doors; rhestr flynyddol yw hon o'r 50 gwlad lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth fwyaf eithafol.

(Addaswyd o newyddion dyddiol premierchristianmedia.co.uk)

Gellir dilyn y newyddion Cristnogol mae'r byd yn **eu hanwybyddu** ar eu gwefan neu drwy danysgrifio i'r cylchgrawn misol *Christianity*.

Dydd Gweddi'r Byd – Is-bwyllgor Cymraeg

Cynhaliwyd cynhadledd rithiol dros Zoom ddydd Mercher, 24 Tachwedd, o 10 hyd 11 o'r gloch. Roedd y gynhadledd wedi ei seilio ar y thema a ddewiswyd gan wragedd Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer gwasanaeth 2022.

Pwysleisiwyd ar y dechrau fod y testun yn seiliedig ar adnod yn llyfr Jeremeia, sef "Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer" (29:11). Dyma adnod sy'n llawn

gobaith, ac fe gafwyd hynny'n weledol drwy sgrin ein cyfrifiaduron. Bu'r cwbl yn fodd i ddod â gobaith, a gwelwyd symbol o obaith gan Miriam Lewis, y Llywydd, wrth iddi gynnu saith gannwyll oedd yn cael eu cynnu ar adegau arbennig drwy'r gwasanaeth.

Esboniodd y Llywydd arwyddocâd y llun ar glawr taflen gwasanaeth 2022. Trwy gyfrwng gwaith tecstilau, brodwaith *appliqué* a gwaith metel, mae'r arlunydd Angle Fox wedi dewis nifer o ddelweddau i ddarlunio'r geiriau allweddol:

rhyddid – drws sy'n agor ar lwybr dros ehanger diderfyn;

cyfiawnder – cadwyni wedi'u torri;

tangnefedd Duw a maddeuant – colomen a lili heddwch yn torri drwy'r palmant.

Dros y cyfan ceir enfys sydd wedi cynrychioli'r pethau hyn ers stori Noa a hyd heddiw. Mae'n arwydd o gyfamod Duw â dyn, a bellach mae'n arwydd o undod rhwng gwahanol rannau o'n cymuned.

Cymerwyd rhan yn y gynhadledd rithiol gan gynrychiolaeth o aelodau'r Pwyllgor ledled Cymru, ac fe wnaeth pawb eu gwaith yn ardderchog a heb drafferth.

Hyfryd iawn oedd gweld a chael cyfraniad pwysig gan Gwen Wildman, ein cynrychiolydd ar y Pwyllgor Cenedlaethol yn Llundain. Dangosodd Gwen sleidiau ac fe wnaeth y Parchedig Carys Ann chwarae'r CD i gyd-fynd â'r sleidiau. Gweithiodd hyn yn rhyfeddol, o ystyried bod Gwen yn Llundain a Carys Ann yn Rhydlewis, Llandysul. Mae CD ROM o'r sleidiau a'r CD gerddorol ar gael drwy gysylltu â'r Swyddfa Ganolog yn Tunbridge Wells: 01892 541411; www.wwdp.org.uk.

Gwerthfawrogir yr holl waith paratoi ymlaen llaw at y gwasanaeth sydd wedi digwydd ymhell cyn hyn gan y cyfieithydd, Beryl Steeden Jones, yr ysgrifennydd, Mary Thomas; a'r trysorydd, Margaret Morgan, a ganodd unawd yn y gwasanaeth er mwyn ein cynorthwyo i baratoi ar gyfer mis Mawrth 2022. Gwerthfawrogwyd cyfraniad pawb i'r gwasanaeth bendithiol iawn a gafwyd, yn arbennig iawn y gobaith oedd yn amlwg wrth fynd drwy'r oedfa i'n paratoi ar gyfer dydd Gwener, 4 Mawrth 2022.

Os dymunwch gael copi / copiau o raglen y gwasanaeth, mae croeso i chi eu harchebu drwy gysylltu â Margaret Morgan, Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam LL11 4FF; 01978 756717 margaretmaudmorgan@gmail.com

Parchg Beti Wyn James
Parchg Carys Ann
Swyddogion Cyhoeddusrwydd



Teyrnged

Y Diweddar Barchedig Lewis Wyn Daniel

Bu farw'r Parch Lewis Wyn Daniel yn ei gartref, Teify View, Llanfihangel-ar-Arth ar 27 Gorffennaf 2021. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Parcgwyn, Arberth, ar 10 Awst.

Cydymdeimlir yn fawr â'i weddw, Joy, ei ferch, Cery, ac â'i frodyr, Dewi a Rhys, a'u teuluoedd yn eu hiraeth. Bu'n fugail ffyddlon yn yr ofalaeth sy'n cynnwys Rhydfendigaid, Caradog a Swyddffynnon am dros chwarter canrif.

Trefnodd yr ofalaeth Gyfarfod Coffa iddo yn Rhydfendigaid brynhawn Sul, 19 Medi, yng ngofal y Parch Nicholas Bee, Llanddewibrefi. Dyma bigion o deyrngedau iddo gan gynrychiolwyr o'r tair eglwys yn ystod y cyfarfod.

Dafydd Jones ac Annwen Davies, Swyddffynnon

Cychwyn y daith i'r Parchedig Lewis Wyn oedd symud o Ben-uwch i Danffordd, Swyddffynnon, yn y pedwardegau gan greu cyswllt teuluol a barhaodd hyd heddiw. Roedd ei dad yn flaenor yng Nghapel Swyddffynnon ac yn athro ysgol Sul i'r oedolion.

Adeg y Gymanfa Ganu neu Gwrdd Plant, byddai te ar gael yn Nhanffordd i blant ffermydd y fro cyn iddynt ddychwelyd adre. Roedd gwreiddiau a chalon Lewis Wyn yn ddwfn yn yr ardal.

Yn ystod haf 1993 daeth atom ar brawf. Ac wedi pleidlais, penderfynwyd ei wahodd i fod yn weinidog rhan-amser arnom. Fe weithredodd ei ddyletswyddau gyda brwdfrydedd a chynhesrwydd.

Roedd yn gadeirydd ac yn aelod ffyddlon o Bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Swyddffynnon, ac yn feirniad ar y llawysgrifen. Roedd yn artist profiadol, ac mae ei luniau mewn sawl cartref yn yr ardal. Diolch am ei ffydd a diolch i Dduw am gael ei adnabod.

Wyn Evans, Caradog

Mae'n fraint cael y cyfle hwn i ddweud gair er cof am y Parchedig Lewis Wyn Daniel. Hoffwn yn gyntaf estyn ein cydymdeimlad dwys fel aelodau â'i holl deulu yn eu profedigaeth.

Yr oedd Lewis Wyn yn llond lle o bersonoliaeth frwdfrydig ac egniol. Rwy'n cofio pan oedd fy ewythr Caradog yn wael, a Lewis Wyn yn ymweld â ni fel teulu. Ar y lôn i fyny i Nant-byr torrodd 'clutch cable' y car. Roedd yn adnabyddus am beidio â gyrru'r ceir gorau! Bu'n rhaid galw am y cerbyd 'recovery'!

Mae'n rhaid i ni gofio mai athro plant ag anghenion arbennig oedd Lewis Wyn wrth ei waith bob dydd cyn iddo fynd i'r weinidogaeth, a hynny yn Felin-fach ac yna yn Llanbadarn Fawr. Roedd ganddo

ddawn naturiol gyda phlant, ac roedd gennyf gyfnither a chefnder o dan ei ofal. Roeddent yn meddwl y byd ohono.

Ar ran aelodau Capel Caradog, hoffem ddiolch am ei flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon. Rydym yn dra diolchgar iddo. Hedd i'w lwch.

Lyn Ebenezer, Rhydfendigaid

Roedd Lewis Wyn yn weinidog. Roedd e'n bregethwr. Roedd natur y bugail da yn ail natur iddo wrth iddo alw gyda hwn neu hon fyddai'n gaeth i'w cartref. Ond ei nodwedd amlycaf oedd ei berthynas â phlant.

Byddai amser holi'r plant yn ddrama, a'r 'double act' rhwng y Gweinidog a Guto Dolyrychain yn denu dagrau o chwerthin. Lewis a Guto oedd Morcambe and Wise Capel Rhydfendigaid.

Weithiau, fel bonws caem bwt o gân. Pwy wna anghofio solo fyrfyfyr Lewis wrth iddo ganu 'You are my Sunshine' o'r pulpud - yn Gymraeg: 'Ti yw fy heulwen, fy unig heulwen ...'

Ef ei hun oedd yr heulwen. Byddai ei wên fel darn o'r haul. Am dros chwarter canrif bu'n ffyddlon i ni gan wasanaethu am ddim byd mwy na'i gostau. Oedd, roedd Lewis Wyn yn wir gymeriad. Petai raid i mi grynhoi ei ragoriaethau mewn un gair, yna 'anwyldeb' fyddai'r gair hwnnw. Fyddai 'ffyddlondeb' ddim yn bell ar ôl chwaith. Diolch i Dduw am ei fenthyca i ni.

Bedydd ym Methania, Aberteifi

Roedd nos Fercher, 23 Tachwedd, yn noson arbennig yn hanes yr eglwys wrth weld y ffynnon fedydd wedi ei hagar am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, a chael bod gweddiau'r ffyddloniaid wedi

eu hateb. Un ymgeisydd oedd, sef Siân Griffiths. Yn enedigol o Gwm Rhymini, mae wedi ymgartrefu yn yr ardal ers pedair blynedd, ac yn un o ffyddloniaid gweithgar yr eglwys. Ei dymuniad oedd ymaelodi gyda'r ddiadell ym Methania.

Roedd yr oedfa yng ngofal y gweinidog, y Parchedig Irfon Roberts, â'i weddi ddwys yn ein harwain at seremoni syml ond

urddasol y bedydd. Bu Rhidian Evans yn canu geiriau Meigant, 'Dilyn Iesu, dyma nefoedd teulu Duw'. Yn amlwg, roedd yn noson arbennig i Siân, gyda'i dymuniad am fedydd syml wedi ei wireddu.

Ar y bore Sul canlynol, sef Sul cyntaf yr Adfent, er gwaethaf y tywydd stormus, gwelwyd cynulleidfa deilwng yn bresennol pryd y derbyniwyd Siân yn aelod cyflawn. Hyfryd oedd cael croesawu aelod newydd arall, sef Natalie Morgan, yn wreiddiol o Eglwys y Gelli. Mae hithau hefyd wedi ymgartrefu yn y dref ac yn un o ffyddloniaid ein hoedfaon.

Edrychwn ymlaen wrth i'r ddwy barhau i ddefnyddio'u doniau gwerthfawr a galluog er lles yr Efyngyl yn ein plith ym Methania.



(O'r chwith i'r dde) Natalie Morgan; y Parch Irfon Roberts; Siân Griffiths

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

A ninnau yn nhymor yr Adfent, fe fyddwn yn parhau â'r gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

6 Deall Heddwch

Shalom a chroes Crist

Darlenn: Colosiaid 1:15-20

'a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd' (adn. 20)

Efallai eich bod wedi sylwi erbyn hyn fod yna wedd oddrychol yn ogystal ag un wrthrychol i'r peth yma rydym yn ei alw yn heddwch. Yn oddrychol, gall fod y ffordd rydym yn teimlo neu ddim yn teimlo. Mae digwyddiadau ein bywydau beunyddiol yn creu amgylchiadau lle rydym yn teimlo bod gennym, neu nad oes gennym, yr heddwch rydym yn ei geisio. Yn wrthrychol, mae'r Beibl hefyd yn sôn am heddwch mewn ffordd wahanol. Yn ein hadran o'r ysgrythur heddiw, does yna ddim cyfeiriad at y ffordd rydym ni'n teimlo; ond yn hytrach gwneir datganiad herffeiddiol bod Duw trwy Grist wedi gwneud heddwch 'trwy ei waed ar y groes' gyda phob peth (adn. 20). Mae angen i ni ddeall beth sy'n cael ei ddweud yma.

Ceir un o uchafbwyntiau'r ysgrythur yn yr adran yma. Fe gyhoeddir mawredd Crist ac unigrywiaeth Crist mewn ffordd ogoneddus. Gydag adleisiau o destunau Beiblaidd eraill, cawn wybod mai Crist yw delw'r Duw anweledig (adn. 15 a Hebreaid 1:3), bod popeth wedi ei greu ganddo ac er ei fwyn (adn. 16 ac Ioan 1:3), ei fod cyn bod amser (adn. 18 ac Ioan 17:5), ei fod yn cynnal pob peth (adn. 17 a Hebreaid 1:3) ac mai ei eiddo ef yw'r lle blaenaf ym mhob peth (adn. 18 ac 1 Corinthiaid 8:6). Yr hyn sy'n anodd peidio sylwi arno na'i wadu yw dyrchafiad llwyr Iesu. Mae ef yn ddyrchafedig, wedi ei godi yn uchel, yn deilwng o bob gogoniant a mawl.

Ond mae adnod 20 yn ein hatgoffa bod Iesu wedi dod mewn cnawd i bwrpas, ac nad gwneud inni deimlo'n well yn unig oedd y pwrpas hwnnw – o leiaf ddim yn uniongyrchol yn yr ystyr sylfaenol. Er enghraifft, pe byddai'r adran uchod yn dweud y cyfan y mae'n ei ddweud am Iesu, ac yna'n cloi drwy ddweud iddo fyw bywyd hir a sanctaidd ac iddo farw mewn henaint yn ei gartref ei hun yn Nasareth, fe fyddai'n cynnig rhyw gymorth imi yn yr ystyr ei fod yn gwybod sut beth oedd byw yr un math o fywyd â ni a'i fod yn ymwybodol o'r math o broblemau sy'n dod i'n rhan. Ond, ar wahân i gyfrannu rhagor o ysbrydoliaeth inni, fyddai dim mewn gwirionedd wedi newid.

Fe gyfeirir at yr hyn newidiodd yn adnod 20: i Dduw ein Tad, drwy Iesu ei Fab, ein

Hiachawdwr, ar ôl iddo 'wneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun'. Ewch â'ch meddyliau yn ôl at noson y Pasg y buom yn sôn amdani yn flaenorol, a haerriad Iesu bod yn rhaid iddo adael ei ddisgyblion (Ioan 16:6-7). Nid awydd ffarwelio efo nhw oedd y cymhelliad cryf dros adael, ond 'troes efei wyneb i fynd i Jerwsalem' (Luc 9:51) oherwydd bod yr awr wedi dod 'i Fab y Dyn gael ei ogoneddu' (Ioan 12:23). Yma felly mae calon yr hyn a olygir wrth fod yn ymwneud â'r heddwch sydd y tu hwnt i bob deall. Heddwch gwrthrychol ydyw – rhywbeth sydd wedi ei wneud yn bosibl yn unig drwy ymyrraeth Duw. Cafodd ryw wahaniaeth ei wneud sydd wedi newid y berthynas rhwng Duw a dynoliaeth.

Rhai blynyddoedd yn ôl, fe fûm mewn syrcais. Er bod y llewod a'r teigrod yn drawiadol, y clowniaid yn ddoniol a'r rhai ar y *trapeze* yn hynod o ddewr, y troelli platiau fyddaf i'n ei gofio orau. Roedd o'n ddoniol, yn glyfar ac mor ddifyr â dim arall a welwyd y diwrnod hwnnw. Pan oedd y platiau'n troelli'n wastad roedd popeth yn iawn, ond yr eiliad y dechreuon nhw fynd oddi ar eu hechel, dyma'r gynulleidfa'n dechrau gweiddi a chyfeirio'r troellwr i'r man y dylai fynd nesaf.

Y ddelwedd o'r plât yn troelli'n gam yw un o'r delweddau sy'n aros gyda mi i gyfleu'r hyn y mae'r Beibl yn ei alw'n bechod. Efallai mai bychan yw'r cwmpas yn nhroelli'r plât, ond fe allwch chi ddweud yn syth nad yw'n troelli'n wastad. Yr unig beth all gywiro'r sefyllfa yw ymyrraeth y troellwr platiau er mwyn dwyn popeth yn ôl i'w le.

Nawr 'te, mae pob delwedd yn ffaeledig, felly peidiwch ag ymestyn hon y tu hwnt i'w therfynau. Y peth yw: mae'r holl greadigaeth wedi bod yn troelli oddi ar ei hechel ers i bechod ganfod ei ffordd i'n byd. Rydym hyd heddiw yn dal i ymgodymu efo deall beth mae hyn yn ei olygu, ond wrth inni edrych o'n cwmpas dydyn ni yn sicr ddim yn gorfod ymgodymu i ddeall realiti hyn. Hyd yn oed ar ein dyddiau gorau, nid yw ein cymhellion puraf, ein gweithredoedd mywyf caredig ond yn para am ennyd, ac ar eu gwaethaf yn cael eu maeddu gan gymhellion di-drefn.

Rydym wedi gweld fod creadigaeth ryfeddol Duw wedi cwmpo i gyflwr o wrthryfel yn sgil her y rhai a greodd ac a roddodd ewylls rydd iddyn nhw. Yn rhywle a rhywfodd, yn y drefn anweledig sy'n cydio ein bywydau dynol ninnau, bywydau'r anifeiliaid a hyd yn oed y bydysawd corfforol ei hun ynghyd, fe aeth bywyd ei hun oddi ar echel Duw.

Dychmygwch effaith gyfunol y troelliadau anwastad di-rif yma. Bywydau briwedig, toredig, wedi'u gwasgu; trais a gwrthryfel; camddefnydd a diffyg defnydd; perthnasau wedi eu gwro, salwch a phoen; damweiniau a thrasiedi; iselder a hunan-gasineb; casineb ac ymladd, brwydrau a rhyfeloedd; angau a marw. O'u cymryd gyda'i gilydd maen nhw'n ffurfio wal enfawr na ellir ei bylchu rhyngom ein hunain a Duw. Maen nhw'n ein hamddifadu o unrhyw gyfle i fwynhau presenoldeb Duw.

Ond mae newydd da, nid drwg i'w gael, oherwydd mae Duw wedi gweithredu, ac yng Nghrist wedi gwneud heddwch trwy ei farw ar y groes. Bydd pob plât sy'n gwro, fe welwch, o'i adael ar ei ben ei hun, yn disgyn i'r ddaear ac yn malu'n chwilfrw. Dyna'r farwolaeth sy'n ganlyniad naturiol i'n bywydau di-drefn. Ond nid yw'r cyfan yn ddrwg, o bell ffordd. Ond yn wrthrychol, yr ydym wedi ein gwahanu oddi wrth Dduw sydd yn sanctaidd yn ei holl ffyrdd. Oherwydd hyn, y mae Iesu'n dod i mewn i'n profiad dynol i gymryd arno'i hun y cyfan sy'n cael ei osod arnom ninnau.

Mae Rhufeiniaid 5:12-21 yn mynegi hyn yn dda, ac yn y fan hon mae ein hefengyl yn ymgysylltu ynghyd mor ryfeddol. Roedd Iesu yn ddibechod ac felly heb fod yn haeddu marw. Ni ellir dweud hynny am unrhyw un arall. Ond fel yr un diniwed, bu farw ar ein rhan, ac yn y weithred o farw, fe gymerodd bechod y byd i mewn iddo'i hun ac i lawr i farwolaeth. Ni allwn ni blymio dyfnderau'r deall sydd ei angen er mwyn gwneud synnwyr o sut y bu'n 'angau i'n hangau ni', ond rydym yn gwybod, os yw croes ac atgyfodiad Iesu yn golygu unrhyw beth, yna gwrthbwynt eithaf cyfanswm trueni dyn, sydd yn gorwedd ar ochr arall y glorian, ydyw.

Atgyfodiad Crist oedd y dystiolaeth bod angau ei hun wedi ei ddinistrio, a bod heddwch o'r diwedd yn bosibl. Un dydd fe fydd yn cael ei sylweddoli'n llawn, ond ar hyn o bryd rhagflas sydd yn bosibl. Yn Rhufeiniaid 5, fe ddarlennwn, 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist', ac yn Ioan 10:10 fe ddarlennwn eiriau Iesu, 'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.'

Mae heddwch yn bosibl yn awr, yn y bywyd hwn, drwy berthynas o ffydd byw gyda Duw. A thros y dyddiau sy'n dod, rwyf am inni weld sut mae pobl Dduw wedi chwilio am yr heddwch hwnnw drostynt eu hunain ynghanol llawer o gyfyngderau, ac wedi dod o hyd iddo.

[Yn y gyfrol, fe roddir portreadau o amryw gymeriadau o'r Hen Destament o dan y pennawd, 'Saint yn chwilio am heddwch'. Cawn gyfarfod un o'r rheiny yr wythnos nesaf. Gol.]

**cymorth
cristnogol**

Dewisiadau amhosibl mam

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2021

Mae'r pwmp llaw ym mhentref Adut Mariu yng ngogledd De Swdan wedi trawsnewid bywyd ei theulu a'i chymuned gyfan. Bellach mae ganddynt gyflenwad da o ddŵr glân y gallant ddibynnu arno.

'Mae'r dŵr ddaw o'r pwmp llaw yn dda iawn,' meddai Adut, sy'n fam i dri. 'Mae'n rhydd o haint. Rydym yn yfed ohono gyda thawelwch meddwl.'

Ond mae ei thawelwch meddwl presennol yn awgrymu adegau mwy pryderus yn y gorffennol. Cyn i SPEDP, partner lleol Cymorth Cristnogol, adeiladu twll turio, roedd y pentref yn gorfod dibynnu ar yr afon gyfagos am ei gyflenwad dŵr. Ateb anfodhaol oedd hyn, ar y gorau.

'I edrych ar ôl fy mhiant, roedd rhaid iddynt yfed o ddŵr yr afon fudr,' cofiodd Adut. 'Mae yna sawl haint yn y dŵr. Mae carthion gwartheg yno, mae carthion mulod yno ... Mae pobl yn ymolchi yno.'

Ond yn ystod adegau o lifogydd – problem gyson yn y rhanbarth, sy'n waeth oherwydd newid hinsawdd – roedd y cyflenwad dŵr yn cael ei halogi fwyfwy.

'Pan ddaeth y llifogydd, fe ddaethon nhw yn eu holl rym,' cofiodd Adut. 'Roedd y pentref dan ddŵr. Doedd neb yn gallu



Adut Mariu yn codi dŵr glân gyda'r pwmp llaw sydd yn ei phentref yn Ne Swdan

symud. Doedd y masnachwyr aeth i'r farchnad ddim yn gallu dod o hyd i'w ffordd yn ôl. Doedd y plant oedd yr arfer mynd i'r ysgol ddim yn gallu mynd yno bellach. Cafodd popeth ei ddiaristrio.'

Heriau De Swdan

Mae'r sychder a'r llifogydd yn waeth ac yn digwydd amlach oherwydd yr argyfwng hinsawdd. Yn Ne Swdan, maent yn wynebu problem ychwanegol, sef blynyddoedd o anghydfod ac, yn fwyaf diweddar, pandemig Covid 19. Mae argyfwng newyn yn datblygu yn y wlad.

Ymhlith y cymunedau mwyaf bregus mae'r rhai sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth, fel y rhai yn nhalaith Gogledd Bahr el Ghazal yng ngogledd-orllewin De Swdan. Yn dilyn y llifogydd y llynedd, gadawyd teuluoedd yn y rhanbarth heb ddigon o fwyd, dŵr a lloches. Lladdwyd nifer fawr o dda byw a dinistriwyd cynydau. Yn ychwanegol at hyn, cynyddodd heintiau mewn dŵr oherwydd bod y dŵr wedi ei halogi.

Gweithredu lleol

Mae gwaith Cymorth Cristnogol yn y rhanbarth yn cael ei wneud gan bartner lleol, Support for Peace and Education Development Program (SPEDP). Y prif waith yw trwsio ac adeiladu tyllau turio sy'n dod â dŵr glân i'w yfed i gymunedau, waeth beth fo'r tywydd.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r prosiect yn rhannu negeseuon ynghylch glanweithdra; yn rhoi hyfforddiant mewn ffermio, hadau ac offer i wella diogelwch bwyd; yn dangos i gymunedau sut i adeiladu cloddiau er mwyn amddiffyn cartrefi rhag llifogydd; ac yn cynnig cyfleoedd i wella incwm trwy grwpiau cynilo a benthyg arian.

Dewisiadau anodd

Cyn y twll turio, roedd Adut yn wynebu dewisiadau amhosibl: rhoi dŵr budr i'w phlant neu ddim dŵr o gwbl. Nawr, fodd bynnag, mae dŵr glân ar gael. Hyd yn oed yn ystod y llifogydd, roeddent yn gallu dibynnu ar bwmp y pentref – datblygiad sydd wedi trawsnewid eu bywydau.

Y Nadolig hwn, gallwch helpu mwy o gymunedau fel rhai Adut. Trwy sefyll mewn undod gyda hwy, gallwch sicrhau na fydd yr un fam yn gorfod gwneud dewisiadau amhosibl eto.

Am fwy o wybodaeth am Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda ewch i: <https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christmas-appeal>



Llun: Cymorth Cristnogol/ Silvano Yokwe

Adut Mariu o Dde Swdan gydag un o'i thri phlentyn. Mae bywyd y teulu wedi ei drawsnewid oherwydd y twll turio dŵr yn y pentref

Gweddi Ail Wythnos yr Adfent

'Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch.'

Luc 3:4

Ym mhythegfed flwyddyn teyrnasiad yr Ymerawdwr Tiberiws,

Pan oedd Pontius Peilat yn llywodraethwr Jwdea

A Herod yn is-lywodraethwr Galilea,

A'i frawd Phillip yn Itwrea

a Trachonitis,

A Lysanias yn Abilene,

Yn ystod archoffeiriadaeth Annas a Caiaphas,

Daeth gair Duw i Ioan fab Sachareias

yn yr anialwch.

Dduw'r Adfent,

O'r holl lefydd a'r holl bobl

Dewisaist Ioan,

Mab Sachareias ddefosiynol ond amheus,

I gyhoeddi bedydd edifeirwch

Am faddeuant pechodau.

O'r holl safleoedd grym

A'r holl lefydd breintiedig,

Dewisaist yr anialwch

I fod yn fan trawsnewid,

Ble mae'r holl gysuron a'r gwrthdynciadau

Wedi eu tynnu i fwrdd

A'r cyfan sy'n wir, yn cael ei ddadorchuddio.

Wrth inni edrych tua chanolfannau grym

Am y newid yr ydym yn dyheu amdano,

Helpa ni i beidio â chamosod ein gobaith,

Nac esgeuloso'r annisgwyl a'r annhebygol,

I wrthod yr anghonfensiynol a'r anghysurus

Nac osgoi'r gobaith yr ydym yn disgwyl

Ei ganfod mewn drawdod cynnes stabl.

Amen.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Caneuon gras, caneuon mawl

Gweddi

Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, o lwyrfryd calon, â'n holl feddwl, calon, nerth a gallu, ymgrymwn i'th addoli heddiw. Nid yw dy feddyliau di fel ein meddyliau ni – ac eto canfyddwn ein bod am gloriannu dy eiriau, dy ffyrdd, dy ddoethineb a'th ras, a'u barnu yn ôl ein mesurau mympwyol ni. Maddau i ni. A thrwy dy Ysbryd Glân, gogonedda dy hun; cyfarwydda ni a'n synnu trwy dy air. Amen.

Emyn 432 'O tyred di'

Myfyrdod 1 – Llygredd a barn

Fe hoffem, wedi ymweliad â'r ysbyty, fedru gwadu neu anwybyddu'r 'cysgod' oedd ar ysgan.

Mae llun y 'cysgod' wedi'r sgan yn farn ac yn fendith yr un pryd. Mae'n farn am ei fod yn disgrifio cyflwr difrifol. Mae'n newyddion da oherwydd y gellir, o'i drin yn brydlon, arwain at iachâd.

Er bod ein tueddfryd modern yn gwingo yn erbyn y fath beth, erys yng nghanol neges yr Adfent y sylweddoliad o realiti barn Duw ynghyd â gobaith ei drugaredd. A hyd oni chyflawnir yn derfynol holl amcanion yr Arglwydd, bydd y neges am farn Duw ar anghyfiawnder y byd ynghyd â'r neges obeithiol fod modd osgoi'r farn a'i chanlyniadau yn Iesu Grist yn parhau i gael eu cyhoeddi.

* * *

Adroddir yn ddyddiol bron am dwyll neu am lygredd sy'n difa bywyd cyhoeddus ac am systemau crefyddol sy'n dirywio. Er bod proffwydi ein hoes yn darogan gwae a dinistr, ni all eli rhad eu cyngor gyffwrdd â dyfnderoedd y loes.

Pan drown at ein darlenniad cyntaf gwelwn fod rhybuddion difrifol loan Fedyddiwr i'w genhedlaeth yr un mor heriol a pherthnasol heddiw. Roedd dyfodiad un mwy, bedyddiwr yr Ysbryd Glân, gerllaw.

Darlenniad Luc 3:7–18

Myfyrdod 2

Prin fod geiriau'r sylwebwyr mwyaf crafog heddiw mor ddamniol â geiriau loan Fedyddiwr. Ac eto, adlais oedd geiriau loan o eiriau barn a gobaith y proffwydi oedd wedi ei flaenori, proffwydi tebyg i Seffaneaia.

Mor llym oedd condemniad yr Arglwydd drwy Seffaneaia. 'Dinas orthrymus ...

wrthryfelgar a budr!' oedd Jerwsalem (3:1–12), dinas falch, hunanddigionol, na dderbyniodd gyngor ac a gefnodd ar yr Arglwydd. 'Llewod yn rhuo' oedd ei harweinwyr gwleidyddol, 'bleiddiaid' oedd ei harweinwyr crefyddol a rhyfygus oedd y proffwydi. Dinas anghyfiawn ydoedd, ond roedd yr Arglwydd cyfiawn ei hun yn ei chanol yn gweinyddu ac yn gweithredu barn.

Darlenniad 2 Seffaneaia 3:14–20

Nid sefyllfa ddiobaith na ellid ei hadfer oedd cyflwr Jerwsalem. Fel Eiseia gynt, daeth gair yr Arglwydd â neges o gysur hefyd (Eiseia 40:1–5). Er mor dywyll yr amgylchiadau, doedd bwriadau, addewidion a ffyddlondeb Duw tuag at ei bobl ddim wedi newid o gwbl. A'r ffyddlondeb hwnnw sy'n sail i addoliad a hyder ffydd y Cristion ym mhob oes.

A tybed nad yw ei air yn cynnig gobaith i gynulleidfa oedd Cymru heddiw?

Cawn ein gorchymyn a'n hannog ganddo, yn y lle cyntaf, i roi ein galar, ein swildod, ein tristwch a'n mudandod heibio er mwyn canu, gweiddi, llawenhau a gorfoleddu (adn 14). Hyd yn oed cyni'r weithred achubol ddod yn amlwg, cyhoeddir sicrwydd y gair fel symbyliad i fawl a gobaith.

- **Maddeuant a'i effeithiau** (3:14b–15) Trugaredd Duw yw fod effeithiau ein gwrthryfel a'n hymbellhau yn cael eu troi oddi wrthym. Yn Iesu Grist daeth Mab Duw ei hun, yr hwn oedd yn ddibechod, i fod yn bechod, yn aberth ein camwedd, i'n cymodi â Duw ei hun (2 Corinthiaid 5:17 ymlaen). Yn wir, 'pwyl all beidio â chanu am iachawdwriaeth rad / Ag sydd yn teimlo Gronyn o rinwedd pur dy waed?'
- **Symud gelynyddion** (3:15) Yn ei goncwest ar Galfaria, arweiniwyd gorymdaith buddugoliaeth gras Duw dros angau a phechod, celwydd a thwyll y byd (Colosiaid 2:14–15).
- **Duw wedi cartrefu yn ein plith** (3:15–16) Do, fe ddaeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith. Ac roedd ei ymddangosiad, ei ymgawdoliad, ei uniaethu â phobl syrthiedig yn rhyfeddol. Mwy rhyfeddol fyth fydd y dydd hwnnw pan fydd preswylfa Duw gyda phobl ac y bydd dagrau a llefain, galar a phoen, marwolaeth a phopeth ofnadwy wedi mynd heibio am byth (Datguddiad 21:1–5).

Yn ymarferol golyga hynny fod:

- **hyder newydd** (3:16b–17) – i beidio ag ofni'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae'r Arglwydd yn ein plith, ac fel un caeth a ryddhawyd bydd y Cristion gwannaf yn diolch fod y gwaredwr wedi dod atom, fod yr un a'n carodd yn llawenhau ynom;
- **rhyfeddod newydd** (3:17) – wrth i ni gael ein hadnewyddu gan ei gariad ac wrth i ni glywed cân serch ei ddaioni'n torri ar ein clyw. Ni thawelwyd llais angylion na'u neges i fugeiliaid cyffredin ar fryncyn diarffordd ym Mhalestina gynt. Mae cân yr angylion, 'Ganwyd i chwi heddiw, geidwad yn Ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd', yn gryfach nag ingoedd, na phoen, na chelwydd y byd. A phan ddaw'r newyddion da i'n clyw, i'n deall, i'n profiad drwy waith yr Ysbryd Glân, mae llawenydd yn anorfod, ynghyd â syndod a rhyfeddod a mawl;
- **gwahoddiad newydd** (3:18–19) – wrth i gywilydd a gwarth yr hyn ydym gael ei symud oddi wrthym. Yng Nghrist cleddir yr holl bethau sy'n ein cywilyddio a'r gwarth sy'n peri i ni rodio dan gochl tristwch. Yn wir, yn yr union fan lle roedd cywilydd a gwarth yn eu caethiwo clywir seiniau mawl.
- Bydd **anrhydedd newydd yn perthyn i'w bobl**, i'w eglwys (3:19–20). Ar draws y ddaear bydd y gwahoddiad grasol i'w glywed. Drwy'r ddaear a'r nef, un eglwys sydd gan yr Arglwydd Iesu Grist. Pe medrem glustfeinio, byddem yn clywed mawl pobl yr Arglwydd yn codi eu llef: 'Teilwng wyt ti i gymryd y sgrôl ac i agor ei seliau, oherwydd ti a laddwyd ac a brynaist i Dduw â'th waed rai o bob llwyth ac iaith a phobl a chenedl, a gwnaethost hwy yn urdd frenhinol ac yn offeiriaid i'n Duw ni; ac fe deyrnasant hwy ar y ddaear' (Datguddiad 5:9–10). A phwy ohonom allai ymatal rhag ymuno yng nghaneuon mawl ei saint ef?

Gweddi

Arglwydd, am holl ryfeddod dy weithredoedd yn Iesu Grist, am holl rym dy ras, am bob trugaredd ac am bob galwad a'n dygodd i'th gôl, rhyfeddwn ac addolwn di. Llanw ein calonau a'th gariad a'n genau â'th glod. Llanwa'r nef ei hun â'th fawl.

Emyn 479 'Daeth Crist i'n plith'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)